27	Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.	Y ganran o'r oedolion (16+ oed) sy'n cytuno â thri gosodiad am eu hardal leol; teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.	Arolwg Cenedlaethol Cymru  <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy</a>	I	I	Pob un o'r tri mesur o fewn y dangosydd cyfansawdd.  Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol
28	Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli.	Y ganran o'r bobl (16+ oed) sy'n gwirfoddoli: wedi'i mesur yn ôl y ganran o'r oedolion sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu clybiau neu fudiadau (ffurfiol neu anffurfiol); neu sy'n cefnogi aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd anabledd neu afiechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint.	Arolwg Cenedlaethol Cymru  <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy</a>	I	I	Data ynghylch gwirfoddoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd (i'w <a href="#">benderfynu'n derfynol</a> )  Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyddestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.	<p>Ar gyfer oedolion (16 oed a throsodd), y sgôr llesiant meddyliol cymedrig yn ôl Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS). <a href="http://www2.warwick.ac.uk/fac/med/research/platform/wemwbs/">http://www2.warwick.ac.uk/fac/med/research/platform/wemwbs/</a></p> <p>Ar gyfer plant, y sgôr cymedrig gan ddefnyddio'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (gwybodaeth o'r arolwg Deall Cymdeithas). <a href="http://www.sdqinfo.com/">http://www.sdqinfo.com/</a></p>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru (oedolion);</p> <p>Deall Cymdeithas (Plant)</p> <p>Newydd, heb ei gyhoeddi eto</p>	I	I	<p>Y pedwar mesur o lesiant a gesglir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Mae'r Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol yn cynnwys gwybodaeth am gymorth emosiynol.</p> <p>Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd (i'w benderfynu'n derfynol)</p> <p>Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol</p>
30	Y ganran o'r bobl sy'n unig.	Y ganran o'r oedolion (16+ oed) sy'n unig yn ôl graddfa unigrwydd De Jong Gierveld.	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru</p> <p><a href="http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy</a></p>	I	I	<p>Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd (i'w benderfynu'n derfynol)</p> <p>Fframwaith canlyniadau'r GIG</p> <p>Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol</p>
31	Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon.	Oni bai y bydd data gwell ar gael ynghylch ansawdd tai yn y dyfodol bydd	Casgliad data blynyddol Peryglon mewn Tai a	I	N	



Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyddestunol sydd o gymorth i ddatdrosodi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddo	
		<p>hyn yn cael ei fesur yn ôl y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon Categori 1 yn ôl y System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai:</p> <p>Peryglon Categori 1 yw'r rhai sy'n achosi'r risg mwyaf i feddianwyr. Gan fod y data hwn yn dod o'r casgliad data blynyddol Peryglon mewn Tai a Thrwyddedau nid yw'n cynnwys yr holl anheddau, ond yn hytrach dim ond y rhai a gaiff eu hasesu gan Awdurdodau Lleol.</p> <p>Gall asesiadau dan y System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai gael eu cynnal am nifer o resymau. Er enghraifft, cynhelir asesiad dan y System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai wrth drwyddedu Tŷ Amlfeddiannaeth neu pan geir cwyn am eiddo gan y meddiannwr neu gymydog. Er bod y system yn gallu cynnwys pob safle preswyl, fe'i defnyddir yn fwy cyffredin i asesu safonau mewn tai rhent preifat.</p>	<p>Thrwyddedau</p> <p><a href="http://gov.wales/statistics-and-research/housing-hazards-licenses/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/housing-hazards-licenses/?lang=cy</a></p>			
32	Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr.	<p>Cyfanswm yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr</p> <p>Perygl uchel: tebygolrwydd o fwy na 1:30 o lifogydd</p>	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru, Mapiau perygl llifogydd</p> <p><a href="http://gov.wales/about/programme/forgov/environment/performance?code=OU091&amp;lang=cy">http://gov.wales/about/programme/forgov/environment/performance?code=OU091&amp;lang=cy</a></p>	I	N	

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyd-destunol sydd o gymorth i ddatansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
		Perygl canolig: tebygolrwydd rhwng 1:30 a 1:100 o lifogydd	<a href="https://www.naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/">https://www.naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/</a>			
33	Y ganran o'r anheddau gyda perfformiad ynni digonol.	Y ganran o'r anheddau â sgôr o 65 neu uwch yn y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP). Methodoleg a ddefnyddir gan y Llywodraeth yw'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP), ac fe'i defnyddir i asesu perfformiad ynni anheddau. Caiff y sgôr SAP ei fynegi ar raddfa o 1 – 100 – po uchaf fo'r rhif, po isaf fo'r costau rhedeg.	Tystysgrifau perfformiad ynni a ffynonellau gwell ar gyfer data o'r fath os cânt eu datblygu. Mae dadansoddiad newydd, er nad yw wedi'i gyhoeddi eto, o effeithlonrwydd ynni cyfartalog (sgôr SAP) cartrefi newydd yng Nghymru a Lloegr ar gael yn <a href="https://data.gov.uk/dataset/average-energy-efficiency-sap-rating-of-new-homes-england-and-wales">https://data.gov.uk/dataset/average-energy-efficiency-sap-rating-of-new-homes-england-and-wales</a>	N	N	
34	Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddirgaredd am bob 10,000 o aelwydydd.	Nifer yr aelwydydd a oedd yn wynebu bygythiad o ddirgaredd (o fewn 56 diwrnod) y llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddirgaredd am o leiaf 6 mis – y gyfradd am bob 10,000 o aelwydydd	Data Dirgaredd Statudol a gasglwyd gan awdurdodau lleol <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/homelessness/">http://gov.wales/statistics-and-research/homelessness/</a>	I	I	Data ynghylch ceisiadau dirgaredd a chyfrif o nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cydestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoldeb	
			<a href="#">lang=cy</a>			
35	Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.	Y ganran o'r bobl sy'n dweud iddynt fod yn bresennol neu gyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth 3 gwaith neu fwy yn y 12 mis blaenorol: Mae gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn cynnwys: Presenoldeb mewn gweithgaredd ym maes y celfyddydau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i sinema i weld ffilm</li> <li>• Mynd i weld sioe gerdd (nid opera)</li> <li>• Mynd i weld opera</li> <li>• Mynd i weld ballet</li> <li>• Mynd i weld perfformiadau dawnsgyfoes</li> <li>• Mynd i weld dramâu</li> <li>• Mynd i weld cyngherddau neu ddatganiadau cerddoriaeth glasurol</li> <li>• Mynd i gyngherddau neu berfformiadau jazz</li> <li>• Mynd i ddigwyddiadau canu gwerin, cerddoriaeth draddodiadol neu gerddoriaeth byd</li> <li>• Mynd i ddigwyddiad cerddoriaeth fyw o fath arall</li> <li>• Mynd i orielau neu arddangosfeydd</li> </ul>	Arolwg Cenedlaethol Cymru  <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy</a>	I	I	Ystadegau ynghylch ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus, Ymweliadau â safleoedd hanesyddol CADW

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cydestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
		<p>celf neu grefft</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i ddarlleniadau, sesiynau adrodd stori a digwyddiadau llenyddol eraill</li> <li>• Mynd i garnifalau a digwyddiadau celf stryd</li> <li>• Mynd i syrcau (nad yw'n cynnwys anifeiliaid)</li> <li>• Mynd i ŵyl gelfyddydol (e.e. cerddoriaeth, llenyddiaeth, drama, dawn neu Eisteddfod)</li> <li>• Mynd i bantomeim</li> </ul> <p>Cyfranogi yn y celfyddydau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cerddoriaeth (gan gynnwys chwarae offeryn, canu, helpu mewn côr, cymdeithas operatig, band pres, cerddorfa, grŵp gwerin, roc neu jazz)</li> <li>• Gweithgaredd drama neu theatrig</li> <li>• Gweithgaredd dawn</li> <li>• Gwneud ffilmiau a fideos (gan gynnwys y cyfryngau digidol neu ffotograffiaeth heblaw am luniau o'r teulu, gwyliau neu barti)</li> <li>• Celf a chrefft weledol (e.e. peintio, cerflunio, crochenwaith, turnio, gwneud gemwaith, gwehyddu neu decstilau)</li> <li>• Ysgrifennu creadigol</li> </ul>				

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cydestunol sydd o gymorth i ddatblygu'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y celfyddydau digidol (creu a gwneud celfwaith neu animeiddiad gwreiddiol gan ddefnyddio technoleg ddigidol)</li> <li>• Sgiliau syrclas, celf stryd neu weithgaredd theatr corfforol arall</li> </ul> <p>Gweithgaredd arall ym maes diwylliant neu dreftadaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymweliadau â safleoedd treftadaeth/hanesyddol</li> <li>• ymweliadau â llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau neu ddefnyddio'r rhain</li> </ul> <p>Efallai y bydd angen rhywfaint o waith i ddatblygu cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru a allai addasu union eiriad y rhain.</p>				
36	Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.	Y ganran o'r bobl sy'n dweud mewn ymateb i gwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (ar gyfer oedolion 16+ yn flynyddol) ac Arolygon Defnydd Iaith (ar gyfer pawb) eu bod yn siarad 'mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg' a'u bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol	Arolwg Cenedlaethol Cymru (ar gyfer oedolion 16+ yn flynyddol) ac Arolygon Defnydd Iaith (ar gyfer pawb)  <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/Welsh-language-use-survey/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/Welsh-language-use-survey/?lang=cy</a>	I	I	

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyd-destunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
37	Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.	Y ganran o'r bobl a ddywedodd yn y Cyfrifiad eu bod yn gallu siarad Cymraeg	Cyfrifiad Poblogaeth <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/census-population-welsh-language/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/census-population-welsh-language/?lang=cy</a>	I	I	I'w dracio rhwng Cyfrifiadau gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer plant
38	Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.	Y ganran o'r boblogaeth sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon awyr agored neu dan do, a pha mor aml y maent yn cymryd rhan	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru  Plant: Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru  <a href="http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy</a>  <a href="http://www.sport.wales/research--policy/surveys-and-statistics/school-sport-survey.aspx">http://www.sport.wales/research--policy/surveys-and-statistics/school-sport-survey.aspx</a>	I	I	Gweithgarwch corfforol
39	Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU.	Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth y canfuwyd mewn asesiad eu bod yn cyrraedd safon achredu amgueddfeydd y DU neu safon achredu gwasanaethau archifau'r DU.  Diffiniadau:	Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru	I	N	

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyd-destunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddo	
		<a href="http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/archives/accreditation/?lang=cy">http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/archives/accreditation/?lang=cy</a>  <a href="http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/museums/accreditation/?lang=cy">http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/museums/accreditation/?lang=cy</a>				
40	Y ganran o asedau'r amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well.	Y ganran o'r henebion cofrestredig yng Nghymru sydd mewn cyflwr sefydlog neu well neu adeiladau rhestredig nad ydynt 'yn fregus' nac 'mewn perygl'	CADW  <a href="http://gov.wales/about/programmeforgov/culture/performance?code=OU095&amp;lang=cy">http://gov.wales/about/programmeforgov/culture/performance?code=OU095&amp;lang=cy</a>	I	N	Tirweddau'r amgylchedd: ardaloedd o dirweddau yng Nghymru y canfuwyd mewn gwerthusiad eu bod yn eithriadol neu o ansawdd uchel mewn perthynas â manteision gweledol a synhwyraidd.
41	Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.	Allyriadau tiriogaethol nwyon tŷ gwydr fesul sector (miliwn o dunelli metrig o garbon deuocsid a'i gyfatebol)	Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (yn ôl ffynhonnell)  <a href="http://naei.defra.gov.uk/">http://naei.defra.gov.uk/</a>	N	N	
42	Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.	Allyriadau nwyon tŷ gwydr, boed yng Nghymru neu mewn gwlad arall, y gellir yn rhesymol eu priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn ystod y cyfnod	I'w gynhyrchu yn unol â gofynion Adran 41 (11) Bil yr Amgylchedd (Cymru). Disgwylir i hwn gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016.  Bil yr Amgylchedd	N	N	

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyddestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
			(Cymru) <a href="http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=12572">http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=12572</a>			
43	Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru.	<p>I'w mesur i ddechrau trwy faint cynefinoedd lled-naturiol tiriogaethol, sy'n dod i sylw ar ffurf colledion ac enillion mewn grwpiau cynefin eang yn ôl ardal (hectarau), er enghraifft coetir brodorol, gweirgloddiau, glaswelltiroedd a.y.b.</p> <p>Mae'r term 'cynefin naturiol' yn cyfeirio at gynefinoedd sydd heb eu newid gan weithgareddau dyn dros gwrs hanes. Ychydig iawn o gynefinoedd o'r fath sydd yng Nghymru sy'n gynefinoedd gwirioneddol naturiol. Felly defnyddir y term 'cynefin lled-naturiol' i ddisgrifio'r cymunedau llystyfiant sydd, er mewn cyflwr newidiedig, yn cynnal planhigion ac anifeiliaid brodorol. Maent yn gynefinoedd o ansawdd da y gwyddom eu bod yn darparu ystod o fanteision neu wasanaethau ecosystemau. Mae gwasanaethau ecosystemau'n ymwneud â'r budd y gall yr amgylchedd naturiol ei gynnig i gymdeithas a ffyniant economaidd.</p>	<p>Arolwg Cynefinoedd Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p><a href="http://jncc.defra.gov.uk/page-4258">http://jncc.defra.gov.uk/page-4258</a></p>	I	N	Ardaloedd o gynefinoedd sy'n sensitif i lygredd aer lle eir y tu hwnt i lwythi critigol ar gyfer llygryddion
44	Statws amrywiaeth	I'w fesur i ddechrau gan ddefnyddio'r	Methodoleg y Cyd-	N	N	



Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyd-destunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddo	
	fiologol yng Nghymru.	<p>fethodoleg ar gyfer “Dangosydd Bioamrywiaeth y DU C4b: statws rhywogaethau sy'n flaenoriaeth (dosbarthiad)”. Caiff y dangosydd hwn ei grynhoi gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Ar gyfer dangosyddion y DU caiff rhestrau'r pedair gwlad o rywogaethau sy'n flaenoriaeth eu cyfuno i greu Rhestr Cadwraeth Ffatriol. Gellir cymhwyso'r fethodoleg i unrhyw restr o rywogaethau, o unrhyw dacsonau, y mae digon o ddata ar gael ar ei chyfer. Byddai rhestr o rywogaethau sy'n cynnwys sawl tacson yn cael ei defnyddio fel sail i ddangosydd ar gyfer Cymru. Bydd y rhestr derfynol yn ddibynnol ar argaeledd data ar gyfer Cymru.</p> <p>Bydd y model yn cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg dan gomisiwn gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Yn ddiweddar mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi rhoi comisiwn i'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg ymchwilio i uno Dangosydd y DU C4a Statws rhywogaethau sy'n flaenoriaeth – helaethrwydd cymharol a Dangosydd y DU C4b Statws rhywogaethau sy'n flaenoriaeth – dosbarthiad o fewn yr un</p>	<p>bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) / Gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Dadansoddiad newydd, heb ei gyhoeddi eto</p>			

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cydestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddo	
		fframwaith fel y gellir adrodd ar statws rhywogaethau sy'n flaenoriaeth fel un. Mae hyn i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2016, ond ar hyn o bryd nid yw'n hysbys pa mor ddichonadwy ydyw. Os yw'n bosibl cyfuno'r dangosyddion helaethrwydd a dosbarthiad mewn un mesur yna hwn fyddai'r dangosydd a fyddai'n cael ei ffafrio fel yr un i'w ddefnyddio.				
45	Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan.	<p><i>Ansawdd dŵr:</i> Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.</p> <p>Caiff cyrff dŵr wyneb yng Nghymru eu dosbarthu o ran eu statws yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel un o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.</p> <p>Y diffiniad o statws da yw dŵr sy'n dangos newid bach yn unig o'r hyn a fyddai i'w ddisgwyl fel arfer dan amodau na tharfwyd arnynt.</p> <p>Mae statws cyffredinol da (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) yn</p>	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru/ Arsylwi Dyfroedd Cymru</p> <p><a href="http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/">http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/</a></p>	I	N	<p>Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd (i'w benderfynu'n derfynol)</p> <p>Ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau <a href="http://gov.wales/topics/environment/countryside/epq/water/loading/bathing-water-quality-and-beaches/?lang=cy">http://gov.wales/topics/environment/countryside/epq/water/loading/bathing-water-quality-and-beaches/?lang=cy</a></p>

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyddestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddo	
		<p>cwmpasu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawnir 'statws dŵr wyneb da' gan gorff dŵr wyneb pan fo'i 'statws ecolegol' a'i 'statws cemegol' o leiaf yn dda.</li> <li>• Mae 'statws ecolegol' yn fynegiant o strwythur a gweithrediad ecosystemau dyfrol sy'n gysylltiedig â dyfroedd wyneb. Caiff dyfroedd o'r fath eu dosbarthu fel rhai â 'statws ecolegol da' pan ydynt yn ateb gofynion y Gyfarwyddeb.</li> <li>• Mae 'statws cemegol da dŵr wyneb' yn golygu nad yw crynodiadau cemegau yn y corff dŵr yn uwch na'r gwerthoedd terfyn amgylcheddol a nodir yn y Gyfarwyddeb.</li> <li>• Cyflawnir 'statws dŵr daear da' gan gorff dŵr daear pan fo'i statws meintiol a'i statws cemegol yn dda.</li> <li>• Mae 'statws meintiol' yn fynegiant sy'n dynodi i ba raddau y mae echdyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn effeithio ar gorff dŵr daear. Os yw hyn yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb yna mae'r statws yn dda.</li> <li>• Priodolir 'statws cemegol da' i ddŵr daear pan fo'n ateb gofynion y</li> </ul>				

Rhif	Mesuriad <sup>1</sup> (Dyma'r dangosydd fel y cafodd ei osod gerbron – wedi'i gymryd o Atodiad 1)	Mesuriad technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle y bo'n briodol)	Ffynhonnell y data	Dadgyfuno		Enghreifftiau o ddata cyddestunol sydd o gymorth i ddadansoddi'r data (lle y bo'n briodol)
				Lleol	Grŵp cydraddoedd	
		Gyfarwydddeb o ran uchafswm lefelau cemegau diffiniedig.				
46	Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.	Bydd hyn ar ffurf gwerthusiad o adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau a gynhelir yn ôl-weithredol ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau gwirioneddol sydd eisoes wedi digwydd. Bydd yn canolbwyntio ar y gwerth cymdeithasol a gaiff ei greu gan y bartneriaeth (neu un prosiect penodol ar y cyd gan y bartneriaeth). Mae'r nodweddion a gaiff eu mesur fel rhan o adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau'n cynnwys canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.	Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru <a href="http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/socialenterprise/measure/?lang=cy">http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/socialenterprise/measure/?lang=cy</a>	N	N	